

Gwranddo. Gweithredu. Ffynnu.

Iechyd Meddwl ac Emosiynol Plant a Phobl Ifanc Sydd â Phrofiad o Ofal

Mae gwaith ymchwil wedi canfod dro ar ôl tro bod cyfraddau problemau iechyd meddwl yn uwch ymysg plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal¹ nag ydynt ymysg y boblogaeth gyffredinol.² Yng Nghymru, roedd 67.5 y cant o'r holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi derbyn gofal o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.³ Mae tystiolaeth gref yn awgrymu mai camdriniaeth ac esgeulustod yw'r achosion blaenaf o iechyd meddwl gwael yn ystod plentynod ac yn nes ymlaen mewn bywyd.⁴ Yn 2014, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i fynnu bod iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael ei asesu ar ddechrau eu cyfnod mewn gofal.⁵

“Dydw ni ddim yn bobl ifanc drafferthus, ein profiadau sy'n ein siapia” (person ifanc)

Nodau'r Prosiect

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant. Mae NSPCC Cymru wedi gweithio gyda Voices From Care Cymru i ymchwilio i sut mae anghenion iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael eu hasesu a'u cefnogi. Rydym wedi ymgynghori â 21 o bobl ifanc (15-21 oed) sydd â phrofiad o ofal, ac wedi cynnal arolygon â 26 o nyrsys plant sy'n derbyn gofal a 44 o Swyddogion Adolygu Annibynnol yng Nghymru.

Mae'r papur briffio hwn yn darparu trosolwg o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion i helpu Grŵp Cynghori'r Gweinidog gyda'i waith. Caiff adroddiad manylach ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2019.

Canfyddiadau

Dyweddodd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wrthym nad ydynt yn cael y cymorth iechyd meddwl ac emosiynol sydd ei angen arnynt. Ymysg y prif faterion a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad mae: asesiadau iechyd, mynediad at wasanaethau, hyfforddiant, a gwaith aml-asiantaeth.

Asesiadau Iechyd Meddwl

Dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, rhaid i bob plentyn neu berson ifanc mewn gofal gael asesiad iechyd, sy'n cynnwys iechyd meddwl.⁶ Mae canfyddiadau'r prosiect hwn yn awgrymu nad yw asesiadau iechyd yn asesu iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ddigonol. Rydym wedi canfod bod yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio i asesu iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc yn amrywio, ac nad oes digon o eglurder i ymarferwyr o ran sut dylent asesu iechyd meddwl ac emosiynol.

“Dydw i erioed wedi gweld unrhyw ganllawiau nac wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol mewn cysylltiad ag iechyd meddwl ac emosiynol” (nyrs plant sy'n derbyn gofal)

Fe wnaeth nyrsys plant sy'n derbyn gofal nodi amser fel mater allweddol o ran asesiadau iechyd. Maent yn teimlo nad oes digon o amser yn cael ei neilltuo i gynnal asesiad llawn o iechyd meddwl a chorfforol.

“Mae asesiadau iechyd yn asesu iechyd corfforol – anaml maen nhw'n asesu iechyd meddwl a lles emosiynol” (Swyddog Adolygu Annibynnol)

Mynediad at Wasanaethau

Roedd pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn disgrifio pa mor anodd yw cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ym mhob rhan o Gymru. Siaradodd bob cyfranogwr am ba mor heriol yw hi i unigolion mewn gofal gael gafael ar wasanaethau CAMHS o ganlyniad i'r trothwy uchel ar gyfer atgyfeirio. Soniodd llawer am yr angen i gael diagnosis iechyd meddwl neu i fod mewn 'argyfwng' cyn cael cymorth. Roeddent yn sôn am amseroedd aros hir i gael gafael ar CAMHS, a sut byddai person ifanc yn cael ei roi ar waelod y rhestr aros pe bai'n symud lleoliad.

“Does dim byd yno i roi cymorth i bobl eraill heb ddiagnosis, yr holl rydyn ni'n ei gael yw CAMHS yn gwrthod gweld plant” (nyrs plant sy'n derbyn gofal)


“mae'n cymryd tua chwe mis i gael mewn i CAMHS” (person ifanc)

“Es i weld y meddyg a chael gwrth-iselyddion yn syth” (person ifanc)

Roedd y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn teimlo nad yw meddygon teulu yn gwrandao arnynt a'u bod yn rhy barod i ragnodi gwrth-iselyddion. Roedd pobl ifanc yn pwysleisio pa mor bwysig yw cael mynediad blaenoriaethol neu adnoddau CAMHS pwrpasol ar gyfer unigolion yn y system ofal, gan gynnwys gwasanaethau therapiwtig a chwmsela. Yn ogystal, siaradodd y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwysigrwydd cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi eu hiechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau lles emosiynol fel ioga, y gampfa a gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Hyfforddiant

Mae pobl ifanc yn teimlo nad yw gofawyr maeth, athrawon, gweithwyr preswyl a gweithwyr cymdeithasol wedi cael digon o hyfforddiant er mwyn cael y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi cymorth digonol i blant sydd â phrofiad o ofal sy'n cael anawsterau iechyd meddwl ac emosiynol. Roedd y nyrsys plant sy'n derbyn gofal a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn galw ar oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael hyfforddiant iechyd meddwl ar effaith trawma, ynghyd â



hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i anawsterau iechyd meddwl. Dylid darparu'r hyfforddiant iechyd meddwl hwn yn rheolaidd er mwyn i weithwyr proffesiynol fagu'r hyder i gefnogi iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc yn eu gofal.

“[Mae] mwy o sefydlogrwydd i berson ifanc os yw gofawyr yn deall yr ymddygiadau a allai fod yn gysylltiedig ag iechyd meddwl.” (person ifanc)

Gwaith Aml-asiantaeth


Roedd pobl ifanc yn dweud nad yw asiantaethau sy'n rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, a bod yn rhaid i bobl ifanc ddweud eu hanes sawl gwaith i sawl oedolyn. Yn ôl y bobl ifanc, “roedd hi'n anodd siarad amdano [eu gorffennol] â phawb.” Ar ben hynny, roedd nyrsys plant sy'n derbyn gofal a Swyddogion Adolygu Annibynnol yn trafod sut mae'r dull gweithredu digyswllt hwn yn cyfyngu ar y gallu i roi cymorth cynhwysfawr i blant a phobl ifanc mewn gofal. Siaradodd y plant a phobl ifanc am yr angen i wasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu cymorth di-dor.

“Gweithwyr proffesiynol i gydweithio fel nad oes rhaid i bobl ifanc ailadrodd eu hanes” (person ifanc)

Argymhellion

Dylai pob plentyn fod â'r hawl i'r safon uchaf o iechyd a dylai'r rheini sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gael y cymorth a'r gefnogaeth briodol.⁷ Roedd adroddiad diweddar Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cadernid Meddwl*, yn trafod sut mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i blant a phobl ifanc mewn gofal "ar y dibyn" ac "mewn argyfwng."⁸ Rydym yn cydnabod bod y Llywodraeth yn gweithio i ymateb i argymhellion yr Adroddiad⁹ ond mae gan rieni corfforaethol ddyletswydd i weithredu. I alluogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i ffynnu, rydym yn argymhell y canlynol:

- Dylai panel arbenigol o Lif Gwaith Ymyrraeth Gynnar a Chadernid Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc weithio gyda Llywodraeth Cymru i:
 - Adolygu sut mae iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael ei asesu ar hyn o bryd; a
 - Datblygu **fframwaith asesu iechyd meddwl ac emosiynol** cynhwysfawr a fydd yn cynnwys asesiad o anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ariannu **adnoddau CAMHS pwrpasol** ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Rhaid i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gwell gwasanaethau iechyd meddwl.
- Dylai awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol, a gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg weithio gyda'i gilydd i ddarparu **dull gweithredu cydgysylltiedig** ar gyfer gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl ac emosiynol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.



- Dylid darparu **hyfforddiant** i oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r hyder i ymateb i anghenion iechyd meddwl ac emosiynol.
- Hefyd, dylid cynnig **gwasanaethau lles emosiynol** i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, fel ioga, gweithgareddau awyr agored, ymwybyddiaeth ofalgar a phaentio.

Unrhyw gwestiynau?

Cysylltwch â Thîm Polisi a Materion Cyhoeddus NSPCC Cymru:
publicaffairs.cymru@nspcc.org.uk.

1 Plentyn neu berson ifanc sydd yng ngofal ei awdurdod lleol neu wedi bod yn ei ofal.
2 Luke et al (2014) What works in preventing and treating poor mental health in looked after children? t.7
3 Bentley, H. et al (2018) How Safe are our children? Llundain: NSPCC., t.55
4 Gilbert, et al. (2009) Burden and consequences of child maltreatment in high-income countries. The Lancet, 373(9,657), tt.68-81.
5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler hefyd, Plant a Phersonau Ifanc, Cymru: Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, OS 1818 (Cy. 261), rhan 2, adran 7).
6 Plant a Phersonau Ifanc, Cymru: Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, OS 1818 (Cy. 261), rhan 2, adran 7).
7 Dan Erthygl 39 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso, eu cam-drin neu eu hecshloetio gael cymorth arbennig i adfer yn gorfforol ac yn seicolegol, a'u hailintegreiddio yn y gymdeithas.
8 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru, t.118 (<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf>)
9 Id.

